# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Ebrill 2024

Amser: 13.31 - 14.32

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13868

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Sarah Murphy AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 2.1 SL(6)474 - Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a'r ohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 2.2 SL(6)477 - Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 2.3 SL(6)478 - Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a'r ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 3 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 3.1 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygiadau Amrywiol) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

### 3.2 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Gohebiaeth oddi wrth Sam Rowlands AS: Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Sam Rowlands AS.

### 4.2 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Llywydd: Y Bil Tybaco a Fêps

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Llywydd, a chytunodd i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet i ofyn am ragor o wybodaeth.

### 4.3 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig: Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd arno.

## 7 Ymchwiliad Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi: Llywodraethu'r Undeb: Ymgynghori, Cydweithredu a Chydsyniad Deddfwriaethol – trafod cyflwyniad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei gyflwyniad i Ymchwiliad Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi a chytunodd arno.

## 8 Adroddiad monitro

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad monitro a chytunodd arno.

## 9 Cywiriadau i Offerynnau Statudol Cymru

Trafododd y Pwyllgor lythyr i'w anfon at y Cwnsler Cyffredinol a chytunodd arno.

## 10 Is-ddeddfwriaeth a osodwyd yn Saesneg yn unig

Trafododd y Pwyllgor lythyr i'w anfon at y Cwnsler Cyffredinol a chytunodd arno.